# Cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Angladdau a Phrofedigaeth a gynhaliwyd ddydd Llun 18 Mawrth 2024, drwy gyfrwng Teams – cofnodion drafft

**Yn bresennol**

- Mark Isherwood AS (Cadeirydd)
- Deborah Smith (Ysgrifennydd)
- Altaf Hussain AS
- Ahmed Alsisi, White Rose Funerals
- Gethin Rhys, Cytûn
- Eleanor Hunt, Cwtch
- Philip Blatchly, PR Blatchly
- Stephen Tom, Phillip Tom & Sons
- Craig Perfect, Cartref Angladd Baglan
- Kate Edwards, Tiwtor, Cymdeithas Genedlaethol y Trefnwyr Angladdau (NAFD)
- Kelly Owen, Tom Owen and Son Trefnwyr Angladdau
- Rachel Bradburne, NAFD
- Barry Pritchard, NAFD
- Andrew Judd, NAFD
- Rebecca Aylott, Cymdeithas Genedlaethol y Trefnwyr Angladdau (NAFD)
- Tracy Atkins
- Kirsty Rees
- Richard Roberts
- Ryan Hitchings
- Lisa Smith
- Terry Tennens, SAIF
- Gordon Swan, Cymdeithas Genedlaethol Darparwyr Cynlluniau Angladdau (NAFPP)

**Siaradwyr gwadd**

- Andrew Bazeley, Comisiwn y Gyfraith
- Nicholas Hopkins, Comisiwn y Gyfraith
- Beth Chalcroft, Comisiwn y Gyfraith
- Spencer Clarke, Comisiwn y Gyfraith
- Alison Young, Comisiwn y Gyfraith

**Croeso a chyflwyniad**

Croesawodd Mark Isherwood AS y rhai a oedd yn bresennol i'r cyfarfod. Roedd y rhain yn cynnwys trefnwyr angladdau ychwanegol a oedd yn aelodau o'r NAFD a SAIF, a wahoddwyd i fod yn bresennol ar gyfer cyflwyniad Comisiwn y Gyfraith.

Nododd Mark Isherwood mai hwn oedd cyfarfod cyntaf y grŵp yn 2024. Dywedodd fod y cyfarfod wedi'i amseru'n dda, o gofio bod y proffesiwn angladdau a phrofiadau pobl sy'n galaru wedi dominyddu'r newyddion yn ystod yr wythnos ddiwethaf, a bod darllen am y materion hynny, o bosibl, wedi bod yn achos gofid i nifer o aelodau'r Grŵp.

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Nododd Deborah Smith fod ymddiheuriadau wedi dod i law gan:

- Llyr Gruffydd AS
- Russell George AS
- Jane Dodds AS
- Darren Millar AS

- Martin Birch, Cyngor Caerdydd
- Emma Kneebone, 2Wish

**Cofnodion y cyfarfod blaenorol; materion yn codi**

Cafodd cofnodion drafft y cyfarfod a gynhaliwyd ar y cyd â’r Grŵp Trawsbleidiol ar Ofal Hosbis a Gofal Lliniarol ym mis Hydref eu cynnig gan Stephen Tom, a chawsant eu heilio gan Phil Blatchly.

O ran materion yn codi, dywedodd Deborah fod un eitem yn weddill – llythyr at Lywodraeth Cymru ynghylch yr ymgyrch i gyflwyno addysg ar brofedigaeth drwy'r cwricwlwm cenedlaethol. Unwaith y bydd tîm newydd y Prif Weinidog yn cael ei benodi, bydd y llythyr hwn yn cael ei anfon.

**Cam i'w gymryd:**Deborah i ddrafftio llythyr.

Gofynnodd Gethin Rhys a fyddai modd iddo gael ei gyflwyno i John Adams, a wnaeth gyflwyniad ar y mater hwn yn ystod y cyfarfod blaenorol. Cymerodd Deborah Smith gamau gweithredu ar y mater hwn drwy e-bost.

**Adolygiad Comisiwn y Gyfraith o'r cyfreithiau sy'n berthnasol i gladdu ac amlosgi**

Cyflwynodd Mark Isherwood y siaradwyr, sef Andrew Bazeley a Nicholas Hopkins o Gomisiwn y Gyfraith, ynghyd â'u cydweithwyr a oedd yn bresennol. Yna, cafodd y siaradwyr eu gwahodd i roi cyflwyniad ar gynnydd eu hadolygiad o'r cyfreithiau sy'n berthnasol i gladdu ac amlosgi yng Nghymru a Lloegr. Mae rhan helaeth o'r cyfreithiau hyn bellach ymhell dros 100 mlwydd oed.

Eglurodd Nicholas Hopkins fod gwaith y comisiwn wedi'i rannu'n dair rhan: claddu, amlosgi a dulliau angladdol newydd. O ran claddu, mae'n edrych ar faterion fel cynnal a chadw mynwentydd, ailddefnyddio beddau, cofrestrau ar gyfer hawliau claddu, a datgladdu. O ran amlosgi, mae'n edrych ar faterion fel lleoliad amlosgfeydd a'r effaith gysylltiedig o ran cynllunio ar y llain las; pwy all wneud cais i adeiladu amlosgfa; llwch heb ei hawlio (gan gynnwys y model sydd bellach ar waith yn yr Alban, ac a fyddai angen defnyddio model tebyg mewn rhannau eraill o'r DU yn ôl-weithredol); ac a ddylai llwch barhau i gael ei drin fel corff, gan olygu bod angen trwydded i'w ddatgladdu.

Mae trydedd rhan y gwaith yn ymwneud â dulliau angladdol newydd, yn enwedig hydrolysis alcalïaidd a chompostio dynol. Ar hyn o bryd, nid yw'r dulliau hyn yn anghyfreithlon yn y DU, ond nid ydynt yn destun rheoleiddio. Mae'n edrych ar y meini prawf y byddai angen eu bodloni o ran iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd, ac urddas pobl sydd wedi marw, pe bai'r dulliau hyn yn cael eu rheoleiddio yng Nghymru a Lloegr.

Cafwyd nifer o gwestiynau mewn ymateb i'r diweddariad. Nododd Barry Pritchard, Llywydd yr NAFD, faterion yn ymwneud â dyfnder beddau. Nododd Eleanor Hunt y goblygiadau i eirch ac amdoeau a fyddai'n deillio o ddefnyddio dulliau angladdol newydd, a gofynnodd a fyddai modd iddi gysylltu â Chomisiwn y Gyfraith.

**Cam i'w gymryd:**Deborah Smith i ddarparu manylion.

Soniodd Gethin Rees am y broses o drosglwyddo claddfeydd i gynghorau plwyf yn Lloegr. Nododd y byddai hyn yn wahanol yng Nghymru, gan nad oes cynghorau plwyf; hefyd, mae ardaloedd mawr lle nad oes cynghorau cymuned ychwaith. Ymatebodd Nick Hopkins ar ran Comisiwn y Gyfraith, gan ddweud bod y comisiwn yn cynnal trafodaethau â Llywodraeth Cymru ar brotocolau ar gyfer cymhwyso argymhellion i faterion datganoledig.

Gofynnodd Mark Isherwood a yw'r comisiwn wedi ystyried cynnig fframweithiau cynllunio ar gyfer amlosgfeydd newydd sy'n adlewyrchu'r gymhareb o ran y boblogaeth leol. Dywedodd Nick Hopkins fod y comisiwn yn meddwl am bethau mwy cyffredinol – fel ystyriaethau eang mewn perthynas ag amlosgfeydd newydd – yn hytrach nag unrhyw feini prawf cynllunio manylach.

Nododd Mark hefyd fod y Grŵp Trawsbleidiol wedi trafod y broses o ailddefnyddio mannau claddu, a gofynnodd pa drafodaethau y gallai'r Comisiwn fod yn eu cael â Llywodraeth Cymru ar y pwnc hwnnw, o ystyried ei sensitifrwydd.

Gofynnodd Eleanor Hunt a fyddai’n synhwyrol cael rheolau ar wahân ar gyfer ailddefnyddio beddau plant.

Dywedodd Nick Hopkins fod y comisiwn yn ymwybodol o sensitifrwydd y mater, gan nodi y byddai'r papur ymgynghori sydd ar ddod yn cael ei ddefnyddio i gasglu cymaint o safbwyntiau â phosibl.

**Cam i'w gymryd:**Llythyr i'w anfon at Lywodraeth Cymru yn nodi'r gwaith a wnaed gan y Grŵp Trawsbleidiol ar ailddefnyddio beddau.

Dywedodd Andrew Judd ar ran yr NAFD fod y proffesiwn angladdau yn awyddus i weld fframwaith hyblyg ond cadarn. Er na ddylai camau rheoleiddio lesteirio gweithgarwch arloesol, nododd ei bod yn bwysig sicrhau bod unrhyw un sy'n gysylltiedig â'r broses o waredu pobl sydd wedi marw yn destun camau penodol o'r fath.

Gwnaeth Philip Blatchly sylwadau ynghylch hyd hawliau claddu, gan nodi bod 50 mlynedd yn gyfnod rhy fyr ar gyfer rhai mathau o diroedd, o ystyried yr effaith y gall tiroedd sych iawn ei chael ar y broses ddadelfennu, o gymharu â thiroedd gwlyb. Croesawodd yr ymchwiliad sy'n cael ei gynnal i ddychwelyd gweddillion amlosgedig, gan ddweud bod gan ei fusnes 610 set o weddillion heb eu casglu.

**Diweddariad: Ymchwiliad yr heddlu i Legacy Independent Funeral Directors** a'r goblygiadau o ran rheoleiddio trefnwyr angladdau yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon

Cafwyd diweddariad ar ymchwiliad yr heddlu i Legacy Independent Funeral Directors yn Hull ac East Riding, a'r goblygiadau o ran rheoleiddio cwmnïau angladdau, gan Andrew Judd, Prif Weithredwr NAFD; a Terry Tennens, Prif Weithredwr SAIF.

Dywedodd Terry Tennens mai'r hyn sydd ei angen yw model rheoleiddio aeddfed â ffocws. Mae'n bwysig nad yw'r Llywodraeth yn defnyddio gordd i dorri cneuen.

Yn y drafodaeth ddilynol, nododd Ahmed Alsisi ei fod wedi cael gwahoddiad i gyfrannu at y gwaith o ddatblygu'r Cod Trefnwyr Angladdau, er nad yw'n aelod o'r NAFD. Dywedodd ei fod yn pryderu bod gwasanaethau angladdau cymunedol yn defnyddio ffydd i wyro teuluoedd i ffwrdd o drefnwyr angladdau, gan nodi y gallai hyn fod yn broblem yn y dyfodol.

Nododd Terry Tennens fod darparwyr gwasanaethau amlosgi uniongyrchol yn defnyddio marwdai ar draul trethdalwyr, a thynnodd sylw at bwysigrwydd cael darparwr amgen ar gyfer datrys anghydfodau, fel pwyllgor safonau proffesiynol SAIF.

Ychwanegodd Altaf Hussain AS fod y sylw a roddwyd i'r ymchwiliad yn ei gyfanrwydd wedi bod yn anodd ei wylio, a bod llawer o wersi i'w dysgu. Dywedodd ei fod yn teimlo ei bod yn bryd cael awdurdod trwyddedu.

Nododd Eleanor Hunt ei bod wedi siarad â'r NAFD a SAIF fel newydd-ddyfodiaid i'r sector, a bod y ddau gorff wedi bod yn gefnogol iawn ac wedi rhoi cyngor da iddi. Fodd bynnag, dywedodd ei bod, o bryd i'w gilydd, yn drysu ynghylch pwy oedd yn gyfrifol am faterion penodol, fel y rheoliadau cywir ar gyfer datblygu cynhyrchion newydd, a hynny yng nghyd-destun safbwyntiau unigolion. Teimlai fod angen eglurder, gan ei bod am wneud y pethau iawn, yn y modd cywir, ond gall fod yn anodd dod o hyd i wybodaeth empirig.

Rhoddodd Rachel Bradburne ddiweddariad am adolygiad y Weinyddiaeth Gyfiawnder o gyfundrefnau hunanreoleiddio. Dywedodd fod yr NAFD wedi gwneud cyflwyniad hir iawn i Lywodraeth y DU, gan nodi bod y corff am weld yr un safonau ar gyfer trefnwyr angladdau yn cael eu cymhwyso ym mhob man.

Awgrymodd Terry Tennens y dylai'r Grŵp gysylltu â Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Gogledd Iwerddon er mwyn sicrhau bod y mater hwn ar eu hagendâu.

**Cam i'w gymryd:** Deborah i ddrafftio llythyrau.

**Diweddariad: Gweithredu system archwilwyr meddygol statudol yng Nghymru a Lloegr**

Ar ddechrau mis Mawrth, cyhoeddodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder na fyddai'r system archwilwyr meddygol statudol yn dod i rym yng Nghymru a Lloegr yn ystod hanner cyntaf mis Ebrill, yn unol â'r hyn a gyhoeddwyd yn flaenorol.

Dywedodd Rachel Bradburne, cyfarwyddwr polisi'r NAFD, nad oedd llawer o wybodaeth i'w hychwanegu, gan nodi na fydd y cynllun yn gwbl weithredol yn ystod hanner cyntaf mis Ebrill, fel yr addawyd. Mae'r sector angladdau yn aros yn eiddgar am ddatganiad gan Maria Caulfield, Gweinidog yn yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ynghylch yr union amseru a manylion pellach unwaith y bydd y rheoliadau yn cael eu gosod yn y Senedd.

**Unrhyw fater arall**

Gofynnodd Ahmed Alsisi am ddiweddariad ar y posibilrwydd o gynnal post-mortemau rhithwir yng Nghymru.
Cadarnhaodd Deborah Smith nad oedd y llythyr wedi cael ei anfon at y Prif Weinidog, ond y byddai'n cael ei anfon yn fuan.

**Cam i'w gymryd:**Deborah Smith i baratoi fersiwn derfynol o'r llythyr a'i anfon.

**Dyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol**

Nododd Mark Isherwood mai'r bwriad yw y bydd y grŵp yn cynnal ei gyfarfod nesaf tua diwedd mis Mehefin neu ddechrau mis Gorffennaf. Bydd y cyfarfod hwnnw hefyd yn cynnwys Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Grŵp ar gyfer 2023/24.

Mae'r Grŵp hefyd yn bwriadu cyfarfod ym mis Hydref, a nododd Deborah eu bod yn archwilio cynlluniau ar gyfer ail gyfarfod ar y cyd â chydweithwyr yn y Grŵp Trawsbleidiol ar Ofal Hosbis a Gofal Lliniarol, ar ôl cael trafodaeth mor gynhyrchiol yn y cyfarfod diwethaf.